## YR ATODLEN

Rheoliad 8(2)

## AMODAU AR GYFER SYMUD DOFEDNOD, ADAR CAETH ERAILL A CHYNHYRCHION DOFEDNOD

# RHAN 1

## *Dehongli*

**1.** Yn yr Atodlen hon ystyr "y drwydded symud" ("*the movement licence*") yw trwydded a ddyroddir o dan Reoliad 8(2) ar gyfer y symudiad penodol a ddisgrifir yn yr is-baragraff perthnasol o'r Atodlen hon.

# RHAN 2

## SYMUD DOFEDNOD BYW NEU ADAR CAETH ERAILL NEU WYAU DOFEDNOD O FEWN PARTH BRECHU

**2.**—(1) Pan fo unrhyw berson yn symud dofednod byw neu adar caeth eraill neu wyau dofednod o fewn parth brechu—

(a) rhaid i wyau deor—

(i) tarddu o haid fridio, sydd wedi'i brechu neu sydd heb ei brechu, ac sydd wedi'i harchwilio gan arolygydd milfeddygol;

(ii) bod yn rhai sydd wedi'u diheintio cyn eu hanfon yn unol â chyfarwyddiadau a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol;

(iii) cael eu cludo'n uniongyrchol i ddeorfa'r gyrchfan; a

(iv) bod yn rhai y gellir eu holrhain yn y ddeorfa.

(b) rhaid i wyau darddu o haid ddodwy, sydd wedi'i brechu neu sydd heb ei brechu, ac sydd wedi'i harchwilio gan arolygydd milfeddygol a rhaid eu cludo i—

(i) canolfan bacio ddynodedig, ar yr amod eu bod wedi'u pacio mewn deunydd pacio tafladwy a bod pob mesur bioddiogelwch sy'n ofynnol gan y drwydded symud yn cael ei ddefnyddio; neu

(ii) sefydliad ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion wyau fel a nodir ym Mhennod II o Adran X o Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 853/2004(**1**) er mwyn iddynt gael eu trafod a'u trin yn unol â Phennod XI o Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 852/2004(**2**).

(c) rhaid i gywion dydd oed—

(i) tarddu o wyau deor sy'n bodloni'r amodau a nodir ym mharagraff (a); a

(ii) cael eu dodi mewn cwt neu sied dofednod lle nad oes unrhyw ddofednod preswyl.

(ch) rhaid i ddofednod byw neu adar caeth eraill—

(i) bod wedi'u brechu yn erbyn ffliw adar os brechiad sy'n ofynnol gan ddatganiad neu hysbysiad o dan reoliad 5(1);

(ii) bod wedi'u harchwilio gan arolygydd milfeddygol; a

(iii) cael eu dodi mewn cwt neu sied dofednod lle nad oes unrhyw ddofednod preswyl.

(**1**) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.55.
(**2**) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.1.

(d) rhaid i ddofednod sydd i'w cigydda—

(i) cael eu harchwilio gan arolygydd milfeddygol cyn cael eu llwytho; a

(ii) cael eu hanfon yn uniongyrchol i ladd-dy dynodedig i'w cigydda ar unwaith.

(2) Nid yw is-baragraff (1)(b) yn gymwys i ddosbarthiad manwerthol wyau dofednod a symudiadau sy'n dilyn dosbarthiad o'r fath.

## RHAN 3

## SYMUD DOFEDNOD BYW NEU ADAR CAETH ERAILL NEU WYAU DOFEDNOD O FANGRE Y TU ALLAN I BARTH BRECHU NEU FANGRE NAD YW O DAN HYSBYSIAD I FANGRE O FEWN PARTH BRECHU NEU I FANGRE SYDD O DAN HYSBYSIAD

**3.**—(1) Pan fo unrhyw berson yn symud dofednod byw neu adar caeth eraill neu wyau dofednod o fangre y tu allan i barth brechu neu fangre nad yw o dan hysbysiad, i fangre o fewn parth brechu neu i fangre sydd o dan hysbysiad—

(a) rhaid i wyau deor—

(i) cael eu cludo'n uniongyrchol i'r ddeorfa yn y gyrchfan; a

(ii) bod yn rhai y gellir eu holrhain yn y ddeorfa.

(b) rhaid i wyau gael eu cludo i—

(i) canolfan bacio ddynodedig, ar yr amod eu bod wedi'u pacio mewn deunydd pacio tafladwy a bod pob mesur bioddiogelwch sy'n ofynnol gan y drwydded symud yn cael ei ddefnyddio; neu

(ii) sefydliad ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion wyau fel a nodir ym Mhennod II o Adran X o Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 853/2004 er mwyn iddynt gael eu trafod a'u trin yn unol â Phennod XI o Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 852/2004.

(c) rhai dodi cywion dydd oed mewn cwt neu sied dofednod lle nad oes unrhyw ddofednod preswyl.

(ch) rhaid i ddofednod byw neu adar caeth eraill—

(i) cael eu dodi mewn cwt neu sied dofednod lle nad oes unrhyw ddofednod preswyl; a

(ii) bod wedi'u brechu ar fferm y gyrchfan os brechiad sy'n ofynnol gan ddatganiad neu hysbysiad o dan reoliad 5(1).

(d) rhaid i ddofednod sydd i'w cigydda gael eu hanfon yn uniongyrchol i ladd-dy dynodedig i'w cigydda ar unwaith.

(2) Nid yw is-baragraff (1)(b) yn gymwys i ddosbarthiad manwerthol wyau dofednod a symudiadau sy'n dilyn dosbarthiad o'r fath.

## RHAN 4

## SYMUD DOFEDNOD BYW NEU ADAR CAETH ERAILL NEU WYAU DOFEDNOD O FANGRE O FEWN PARTH BRECHU NEU

## FANGRE SYDD O DAN HYSBYSIAD I FANGRE Y TU ALLAN I BARTH BRECHU NEU I FANGRE NAD YW O DAN HYSBYSIAD

**4.**—(1) Pan fo unrhyw berson yn symud dofednod byw neu adar caeth eraill neu wyau dofednod o fangre o fewn parth brechu, neu o fangre sydd o dan hysbysiad, i fangre y tu allan i barth brechu neu i fangre nad yw o dan hysbysiad—

(a) rhaid i wyau deor—

(i) tarddu o haid fridio, sydd wedi'i brechu neu sydd heb ei brechu, ac sydd wedi'i harchwilio gan arolygydd milfeddygol;

(ii) bod yn rhai sydd wedi'u diheintio cyn cael eu hanfon yn unol â chyfarwyddiadau a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol;

(iii) cael eu cludo'n uniongyrchol i ddeorfa'r gyrchfan; a

(iv) bod yn rhai y gellir eu holrhain yn y ddeorfa.

(b) rhaid i wyau darddu o haid ddodwy, sydd wedi'i brechu neu sydd heb ei brechu, ac sydd wedi'i harchwilio gan arolygydd milfeddygol a rhaid iddynt gael eu cludo i—

(i) canolfan bacio ddynodedig, ar yr amod eu bod wedi'u pacio mewn deunydd pacio tafladwy a bod pob mesur bioddiogelwch sy'n ofynnol gan y drwydded symud yn cael ei ddefnyddio; neu

(ii) sefydliad ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion wyau fel a nodir ym Mhennod II o Adran X o Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 853/2004 er mwyn iddynt gael eu trafod a'u trin yn unol â Phennod XI o Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 852/2004.

(c) rhaid i gywion dydd oed—

(i) peidio â bod yn rhai sydd wedi'u brechu;

(ii) tarddu o wyau deor sy'n bodloni'r amodau a nodir ym mharagraff 2(1)(a), 3(1)(a) neu 4(1)(a);

(iii) cael eu dodi mewn cwt neu sied dofednod lle nad oes unrhyw ddofednod preswyl.

(ch) rhaid i ddofednod byw neu adar caeth eraill—

(i) beidio â bod yn rhai sydd wedi'u brechu;

(ii) bod wedi'u harchwilio gan arolygydd milfeddygol; a

(iii) cael eu dodi mewn cwt neu sied dofednod lle nad oes unrhyw ddofednod preswyl.

(d) rhaid i ddofednod sydd i'w cigydda—

(i) cael eu harchwilio gan arolygydd milfeddygol cyn cael eu llwytho; a

(ii) cael eu hanfon yn uniongyrchol i ladd-dy dynodedig i'w cigydda ar unwaith.

(2) Nid yw is-baragraff (1)(b) yn gymwys i ddosbarthiad manwerthol wyau dofednod a symudiadau sy'n dilyn dosbarthiad o'r fath.

# RHAN 5

## CIG A GEIR O DDOFEDNOD A GEDWIR O FEWN PARTH BRECHU NEU FANGRE SYDD O DAN HYSBYSIAD

**5.**—(1) Yn achos cig a gafwyd o ddofednod sydd wedi'u brechu ac a gadwyd o fewn parth brechu neu fangre sydd o dan hysbysiad a'r rheini'n ddofednod sydd wedi'u hanfon i'w cigydda, rhaid i'r dofednod hynny—

(a) bod wedi'u brechu â brechlyn a bennir mewn datganiad neu hysbysiad o dan reoliad 5(1);

(b) bod wedi'u harolygu a'u profi gan arolygydd milfeddygol;

(c) bod wedi'u harolygu'n glinigol gan arolygydd milfeddygol o fewn 48 awr cyn iddynt gael eu llwytho ac os yw'n briodol rhaid i unrhyw adar dangos clwy yn y fangre fod wedi'u harchwilio gan arolygydd milfeddygol; ac

(ch) cael eu hanfon yn uniongyrchol i ladd-dy dynodedig i'w cigydda ar unwaith.

(2) Yn achos cig a gafwyd o ddofednod na chafodd eu brechu, a'r rheini'n ddofednod a gadwyd o fewn parth brechu neu fangre o dan hysbysiad ac a anfonwyd i'w cigydda, rhaid i'r dofednod fod wedi bod drwy broses fonitro gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

# RHAN 6

## SYMUD DOFEDNOD NEU ADAR CAETH ERAILL O'R DEYRNAS UNEDIG

**6.** Gwaherddir symud dofednod neu adar caeth eraill a gedwir o fewn parth brechu neu fangre o dan hysbysiad o'r Deyrnas Unedig oni fydd y symud wedi'i awdurdodi gan yr Aelod-wladwriaeth sy'n eu derbyn.